# Croeso i Aberystwyth:
## Dy Ganllaw ar gyfer yr Wythnosau Cyntaf yn y Brifysgol

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

CROESO WELCOME



# Croeso cynnes iawn i chi i Brifysgol Aberystwyth.

Llongyfarchiadau a chroeso cynnes iawn i chi i Brifysgol Aberystwyth.

Er bod peth amser wedi mynd heibio bellach ers i mi hefyd fod yn fyfyriwr newydd a nerfus yn fy mlwyddyn gyntaf yma yn Aber, gallaf dal gofio'r cyffro a'r pryder yr oeddwn yn ei deimlo wrth ddechrau ar y bennod newydd hon yn fy mywyd. Mae Aberystwyth yn lle gwych i astudio a byw ynddo. Yr hyn sy'n bwysig yw y byddwch chi'n ymuno â sefydliad sydd eisiau gwneud gwahaniaeth yn y byd, a newid bywydau er gwell trwy'r gwaith rydyn ni'n ei wneud, nid yn unig yma yn Aber, ond ledled y byd. Byddwch chi'n elwa o'n haddysgu rhagorol tra byddwch chi'n fyfyriwr yn y brifysgol hon, a byddwch yn cael eich addysgu gan academyddion sy'n arweinwyr yn eu meysydd ac a fydd yn rhannu'r syniadau a'r darganfyddiadau diweddaraf gyda chi yn eu meysydd.

Ein ffocws yw sicrhau bod gennych addysg ragorol fel y bydd gennych radd ardderchog pan fyddwch chi'n gadael, ond bydd gennych hefyd y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i greu argraff ar y byd a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymdeithas. Mae dod i'r Brifysgol yn brofiad sy'n newid eich bywyd. Dyma'r lle i chi ddatblygu'n academaidd ac yn bersonol. Hoffwn eich annog i fod yn chwilfrydig, i ofyn cwestiynau ac i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw i'ch rhan.

Dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf, byddwch yn ymgartrefu yn eich amgylchedd newydd, wedi eich amgylchynu gan bobl newydd, profiadau newydd a llu o gyfleoedd newydd.

Gall newid fod yn frawychus ar adegau, ond gallwch fod yn dawel eich meddwl bod lle i chi yma yn Aber. Cyrchu'r canllaw hyn yw'r cam cyntaf i ddysgu am bopeth sydd ar gael yma ac wrth i chi ddechrau ymgyfarwyddo â'r Brifysgol, hoffem eich helpu a'ch cefnogi yn eich cyfnod o ymaddasu, ac i chi ddod i adnabod y Brifysgol yn well.

Pob dymuniad da i chi yn eich dyddiau a'ch wythnosau cyntaf yn Aber, a gobeithiaf eich croesawu, wyneb yn wyneb, yn ystod yr wythnos groeso a thu hwnt.

**Yr Athro Jon Timmis,**
**Is-Ganghellor**

# CaruAber – Dod i Adnabod eich Prifysgol

## Dyma'ch lle i ddarganfod, i ddysgu ac i ddatblygu..

Wrth i chi ddechrau ymgyfarwyddo â'r brifysgol rydym am eich cefnogi yn ystod eich cyfnod pontio, ac am i chi ddod i adnabod y Brifysgol yn well. Mae themâu CaruAber - Dod i Adnabod eich Prifysgol yn canolbwyntio ar saith prif faes a fydd yn eich galluogi i wneud y gorau o'ch amser gyda ni yn ystod eich cyfnod pontio. Darllenwch fwy am ein themâu CaruAber o dudalen 10 ymlaen.

## Cynnwys


**Rhestr Wirio CyrraeddAber**

**Ymgartrefu yn y Brifysgol:**

Eich Cyfleusterau Campws 4
Eich Adeiladau Adrannau Academaidd 6
Eich Astudiaethau 8

**Dod i Adnabod eich Prifysgol:**

Y Themâu Dod i Adnabod eich Prifysgol 10
Ymgartrefu Aber 10
Astudio Aber 11
Cefnogaeth a Lles Aber 12
Ieithoedd a Gyrfaoedd Aber 14
Amgylchedd a Chynaliadwyedd Aber 15
Sgiliau Aber 16
Cymuned a Diwylliant Aber 17

**Ymgartrefu yn Aberystwyth:**

Y Dref 18
Siopa ac Archfarchnadoedd 20
Dyma dy le... 22

## Rhestr Wirio CyrraeddAber

- Cysylltu â Wi-Fi ar y campws
- Ymunwch yn y Digwyddiadau ac yng Ngweithgareddau'r Wythnos Groeso
- Cyfarfod â'ch adran
- Cwblhau eich Cofrestriad Cwrs
- Ymweld â Ffair y Glas
- Archwilio'r Campws (Cwblhewch CroesoAber: Her y Campws)
- Ymgysylltwch â Arweinwyr Cyfoed Adrannol CroesoAber (o syn berthnasol)
- Cwblhau'r Hyfforddiant Caniatâd Ar-lein
- Cofrestru gyda meddyg teulu
- Cofiwch siarad fyny os oes angen cymorth arnoch yn ystod eich cyfnod Cyrraedd Aber

**Mae mynediad i rhestr mwy manwl yma:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/aber-arrival/

**Os oes angen help arnoch unrhyw bryd yn ystod eich cyfnod 'Cyrraedd Aber'...**
Bydd staff wrth law drwy'r cyfnod cyrraedd ac mae gennym restr o gysylltiadau allweddol yn ein rhestr wirio fanwl



### 1 Cysylltu â Wi-Fi ar y campws

Pan gyrhaeddwch y campws gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â phrif rwydwaith diwifr y brifysgol, ei enw yw eduroam. Yna gallwch gadw mewn cysylltiad lle bynnag y boch ar y campws.

### 2 Ymunwch yn y Digwyddiadau ac yng Ngweithgareddau'r Wythnos Groeso

Yn ystod yr Wythnos Groeso trefnir wythnos o ddigwyddiadau a gweithgareddau gan wahanol dimau ar draws y Brifysgol i fyfyrwyr newydd gymryd rhan ynddynt! Bwriad y cyfan yw eich croesawu i'r campws, eich helpu i gynefino, gwneud ffrindiau a chysylltiadau, teimlo'n gartrefol ac ymgyfarwyddo â'r campws.

**Dysgu mwy:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/your-induction-planner/

### 3 Cyfarfod â'ch adran

Mae eich rhaglen Gynefino Academaidd yn gyflwyniad pwysig i'ch cwrs a'ch pwnc cyn i'r gwaith ddechrau. Bydd hyn yn cael ei gynnal dros sawl diwrnod yn ystod eich wythnos groeso. Bydd eich adran wedi cynllunio amrywiaeth o weithgareddau dros yr wythnos a thu hwnt.

**Dysgu mwy:**
https://www.aber.ac.uk/cy/welcome/academic-department/

### 4 Cwblhau eich Cofrestriad Cwrs

Cofiwch, cyn y gellir eich ystyried yn fyfyriwr amser llawn neu ran-amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd rhaid i chi gofrestru. Os byddwch angen help i gwblhau'r dasg o Gofrestrwch Ar-lein neu os oes gennych ymholiadau eraill, gallwch fynd i'r Ardal Cymorth Cofrestru yn ystod yr Wythnos Groeso.

### 5 Ymweld â Ffair y Glas

Trefnir Ffair y Glas gan Undeb Aberystwyth (Undeb y Myfyrwyr) ac mae'n cyflwyno popeth sydd gan fywyd myfyriwr i'w gynnig. Bob dydd bydd cymysgedd o wahanol fusnesau, clybiau chwaraeon, cymdeithasau a sefydliadau lleol yn bresennol.

**Dysgu mwy:**
https://www.umaber.co.uk/heloaber/

### 6 Archwilio'r Campws (Cwblhewch CroesoAber: Her y Campws)

Cymerwch ran yn Her y Campws sy'n ffordd ddigidol rhyngweithiol a hunan-gyfeiriedig i archwilio ein campws. Gallwch ddod i adnabod y campws a'ch ffrindiau newydd ychydig yn well trwy wneud hyn fel grŵp hyd yn oed!

**I ddechrau, llawrlwythwch yr ap ar gyfer iOS:**
actionbound.com/bound/aber-welcome-campus-quest

### 7 Ymgysylltwch â Arweinwyr Cyfoed Adrannol CroesoAber (os yn berthnasol)

Gan ddibynnu ar yr adran rydych yn astudio gyda hi, mae'n bosibl y bydd arweinydd cyfoed yn cysylltu â chi yn awtomatig cyn i chi gyrraedd, neu bydd eich adran yn cysylltu â chi i ofyn a ydych yn dymuno cofrestru ar gyfer arweinydd cyfoed neu beidio. Yn ystod y cyfnod Croeso bydd cyfleoedd i chi ofyn cwestiynau a derbyn gwybodaeth a fydd o gymorth. **Nodir:** Nid yw hyn yn berthnasol i rai adrannau academaidd

### 8 Cwblhau'r Hyfforddiant Caniatâd Ar-lein

Mae Aberystwyth yn brifysgol ddiogel, deg a chynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i wneud ein campws yn lle mwy diogel yn barhaus, gan ddangos 'dim goddefgarwch' tuag at aflonyddu, unrhyw droseddau casineb, camdrin ac ymddygiad gwyliedydd. Drwy ddysgu mwy am gydsynio a chwblhau'r hyfforddiant, helpwch ni i gadw Aberystwyth yn ddiogel.

**Cwblhewch yr hyfforddiant:**
https://blackboard.aber.ac.uk/ultra/organizations/_49411_1/outline

### 9 Cofrestru gyda meddyg teulu

Pan fyddwch yn cyrraedd Aberystwyth rydym yn argymell eich bod yn cofrestru gyda meddyg teulu yn lleol. Rydym am sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael i'ch helpu i gofrestru gyda meddyg teulu. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy sganio'r cod QR.

**Gofrestru yma:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/student-health/#registering-with-a-gp-(family-doctor)

# Ymgartrefu yn y Brifysgol – Eich Cyfleusterau Campws

## Eich Gwasanaethau i Fyfyrwyr a'ch Cyfleusterau Dysgu

Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau a chyfleusterau yn benodol i'ch cefnogi'n gymdeithasol, er eich lles a'ch bywydau yn y dyfodol. Mae ein Canolfan Croesawu Myfyrwyr yng nghanol campws Penglais, ac mae ei thimau cyfeillgar ar gael drwy gydol y flwyddyn, o ddydd Llun i ddydd Gwener, i roi cyngor a chymorth gydag ystod eang o bynciau, gan gynnwys gofynion hygyrchedd, anghenion lles, cyngor ariannol, cymorth fisa, ac ymgartrefu yn y brifysgol.

Mae'r cyfleusterau llyfrgell a'r mannau astudio ar y campws i gyd o fewn tafliad carreg i'w gilydd hefyd, sy'n cynnwys Llyfrgell Hugh Owen a Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol, yn ogystal â Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd ond munud i ffwrdd o'r campws ar droed. Peidiwch ag anghofio am ein Gweithfan yn y dref hefyd! Ym mhob un o'n mannau astudio mae myfyrwyr yn gallu defnyddio cyfrifiaduron, gwasanaethau llungopïo ac argraffu. Yn ogystal, fel un o fyfyrwyr newydd Aberystwyth, gallwch lawrlwytho Microsoft Office ar gyfer eich cyfrifiadur eich hun am ddim!

**Dysgwch fwy yma:**
www.aber.ac.uk/cy/discover-aberystwyth/life-on-campus/student-services-learning-facilities/

## Eich Llety a Lle preswyl

Mae symud i'ch llety yn gyfnod cyffrous - fodd bynnag mae'n gallu teimlo ychydig yn frawychus. Gallwn helpu'r broses hon drwy roi gwybodaeth ymarferol i chi am eich preswylfeydd.

Mae llawer o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe Bywyd Preswyl ynghylch amryw o feysydd y mae angen i chi wybod amdanynt fel glanhau ac archwiliadau, cyfleusterau golchi dillad, post, parcio, gwastraff ac ailgylchu, a sut i storio beiciau yn ddiogel a llawer mwy.

**Dysgwch fwy yma:**
www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/





## Eich Cyfleusterau Chwaraeon

P'un a ydych am roi cynnig ar rywbeth newydd neu'n ymroddedig i'ch dewis o weithgaredd, mae gan ein Campws bopeth, o bwll nofio a champfa i gae pob tywydd gyda llifoleuadau, cyrtiau sboncen a hyd yn oed sawna Nordig. Mae gan ein campfa newydd wych 130 o orsafoedd hyfforddi, gan gynnwys beiciau, peiriannau rhwyfo a melinau traed. Gall defnyddwyr fonitro eu cynnydd ar sgriniau digidol wedi'u pweru gan yr egni y maen nhw'n ei gynhyrchu wrth iddynt wneud ymarfer corff. Bydd modd i bob myfyriwr sy'n aros yn llety'r Brifysgol fanteisio ar holl weithgareddau'r Ganolfan Chwaraeon AM DDIM - mae hyn yn cynnwys y gampfa, dosbarthiadau, Seiclo Grŵp, y wal ddringo BoxRox ynghyd â'r pwll nofio a'r sawna.

**Gweler ein Cyfleusterau Chwaraeon yma:**
www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/

## Eich Undeb Aberystwyth (Undeb y Myfyrwyr)

Mae Undeb Aberystwyth (Undeb y Myfyrwyr) eisiau i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr, ac mae'n gweithio i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn hapus, yn iach a grymus, a bod ganddynt gyfeillion oes a dyfodol addawol Mae pob myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn aelod awtomatig o Undeb Aberystwyth, ac mae bod yn aelod yn dod â manteision mawr i'ch helpu drwy eich cyfnod yn y Brifysgol; p'un a ydych am ymuno â chlwb chwaraeon neu gymdeithas (mae gennym dros 100), eisiau gwirfoddoli neu gynrychioli myfyrwyr eraill yn academaidd neu fel arall, neu am gael cyngor annibynnol, yna rydyn ni yma ar eich cyfer chi!

**Dysgwch fwy yma:**
www.umaber.co.uk/

## Eich Caffis a'ch Bwytai ar y Campws

Mae ein caffis a'n bwytai yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn sicrhau darpariaeth ar gyfer pob alergen a gofynion dietegol. Felly, rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod digon o amrywiaeth a chysondeb o ran opsiynau bwyd ledled ein safleoedd ar draws y campws.

Gallwch nawr fanteisio ar ein cynnig prydau hyblyg arbennig 'Bwytewch gyda ni, siopwch gyda ni', hyd yn oed os ydych yn byw mewn llety hunanarlwyo neu dŷ preifat yn y dref! Gallwch fwyta beth yr hoffech, pryd bynnag yr hoffech ac o ble bynnag yr hoffech, o brydau poeth i fwyd a diod Starbucks wrth fynd neu brynu cynhwysion i goginio eich hun.


## Eich Canolfan Gelfyddydol

Canolfan y Celfyddydau yw ein canolfan arobryn ar y campws. Dyma'r lle delfrydol i weld sioe neu ffilm, mwynhau danteithion a chymdeithasu â ffrindiau. Mae rhywbeth yma at ddant pawb, o sioe 'West End' neu sioeau bale ar daith i'r ffilmiau diweddaraf, ffilmiau arbenigol, amrywiaeth o wyliau, neu rai o enwau mwyaf y byd comedi.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn cynnal perfformiadau gan y prif gwmnïau teithiol cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â'i gynyrchiadau ei hun. Cynhelir y perfformiadau yn neuadd gyngerdd y Ganolfan, sydd â seddi i 1,200, neu yn y theatr 300 sedd ac yn y stiwdio gartrefol, a cheir rhaglen brysur o ddangosiadau ffilm yn y sinema sydd â 120 o seddi.


**Dysgwch fwy yma:**
www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/

# Ymgartrefu yn y Brifysgol - Eich Adeiladau Adrannau Academaidd




## Yr Ysgol Gelf (Edward Davies)

Mae lleoliad yr Ysgol Gelf, neu Adeilad Edward Davies, yn agos at Gampws Penglais a thuag at ganol y dref. Mae'n gartref i Gelf a Ffotograffiaeth.




## Carwyn James

Mae Adeilad Carwyn James yn gartref i Wyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.




## Hugh Owen

Yn Adeilad Hugh Owen, ceir Llyfrgell Hugh Owen a'r Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Y Gyfraith a Throseddeg ac Ieithoedd Modern. Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth hefyd wedi'i lleoli yma yn ogystal â darlithfeydd A12 ac A14.




## Gwendolen Rees/Edward Llwyd

Mae adeilad Gwendolen Rees ar Gampws Penglais yn gartref i Adran y Gwyddorau Bywyd, ac mae'n cynnwys caffi CAFFIBach. Drws nesaf mae adeilad Edward Llwyd sy'n cynnwys labordai ac ystafelloedd addysgu..




## Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Mae'r Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gartref i'r Adran Gwleidyddiaeth a Hanes Rhyngwladol a Hanes Cymru.



## Llandinam

Mae Adeilad Llandinam yn cynnwys yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a'r Adran Gyfrifiadureg.




## P5

Wedi'u lleoli yn Adeilad P5 mae'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, yr Adran Seicoleg a'r Ysgol Addysg.




## Parry Williams

Mae adeilad Parry Williams yn gartref i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.



## Gwyddorau Ffisegol

Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'r Adrannau Peirianneg, Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.



## Y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth

Mae'r Ganolfan Addysg Milfeddygaeth yn gartref i Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth.



# Ymgartrefu yn y Brifysgol - Eich Astudiaethau

## Dosbarthiad gradd israddedig

Mae gradd baglor yn cynnwys astudio un pwnc, neu weithiau dau bwnc, yn fanwl. Dyma'r radd israddedig fwyaf cyffredin yma yn Aberystwyth.

Yn nodweddiadol, mae dosbarthiadau yn cynnwys:

- Baglor yn y Celfyddydau (BA)
- Baglor yn y Gwyddorau (BSc)
- Baglor mewn Addysg (BEd)
- Baglor mewn Peirianneg (BEng)
- Baglor yn y Gyfraith (LLB)

Pan ddewisir cwrs sy'n canolbwyntio ar un pwnc, gelwir hyn yn radd anrhydedd sengl. Mae'n bosibl y gallwch astudio is-bwnc ochr yn ochr â'r prif bwnc ar gyfer rhan o'ch gradd, a gelwir hyn yn radd anrhydedd prif bwnc/is-bwnc.

Pan astudir dau neu dri phrif bwnc yn rhan o'ch gradd, gelwir hyn yn radd anrhydedd cyfun.  Byddwch yn dewis sawl modiwl fesul pwnc, yn hytrach na gwneud pob modiwl ar gyfer pob pwnc. Bydd pob pwnc yn cyfrif yr un faint tuag at eich gradd derfynol.



## System raddio prifysgolion

Mae system raddio prifysgolion y DU yn seiliedig ar raddfa rifiadol, sydd fel arfer yn amrywio o 0 i 100, neu 0 i 70.

| Dosbarthiad | Marc | Gradd Lythyren Gyfatebol |
|---|---|---|
| Dosbarth cyntaf (1af) | 70% + | A |
| Ail ddosbarth uwch (2:1) | 60-69% | B |
| Ail ddosbarth is (2:2) | 50-59% | C |
| Trydydd dosbarth (3ydd) | 40-49% | D |
| Methu | 0-39% | E/F |

## Cwrs

Eich cwrs yn ei hanfod yw eich gradd.


## Coursework

Gwaith ysgrifenedig neu ymarferol a wneir gan fyfyriwr yn ystod cwrs astudio, a asesir fel arfer er mwyn cyfrif tuag at farc neu radd derfynol.

## Modiwlau

Mae gan gyrsiau strwythur 'modiwlaidd'. Mae hyn yn golygu y gallwch deilwra eich cwrs yn unol â'ch diddordebau personol drwy ddewis modiwlau neu unedau astudio o wahanol feysydd pwnc. Er enghraifft, os ydych chi'n astudio Llenyddiaeth Saesneg, yna ar gyfer eich blwyddyn gyntaf gallech ddewis un modiwl ar ffuglen wyddonol, neu un modiwl ar lenyddiaeth plant, ac un modiwl ar straeon byrion.

Ar ddechrau pob rhan o'ch rhaglen, rydych chi'n cofrestru ar gyfer modiwlau penodol. Bydd gennych fodiwlau craidd, ac mae'r rhain yn fodiwlau sy'n hanfodol ar gyfer eich cwrs ac ni ellir eu newid. Yn ogystal â hyn, bydd gennych fodiwlau dewisol y gallwch eu dewis.




## Darlithoedd

Darlithoedd yw un o'r prif ffyrdd y byddwch chi'n cael eich addysgu yn y brifysgol. Mae'r rhain yn sgyrsiau neu'n gyflwyniadau, sydd fel arfer yn para awr, ac yn cael eu traddodi gan aelod o staff academaidd.

Gall fod rhwng 20 a 300 o fyfyrwyr yn y ddarlithfa. Bydd y darlithydd yn darparu canllaw i'r pwnc ac yn nodi pwyntiau a themâu pwysig i chi eu hystyried. Bydd disgwyl i chi wrando a chymryd nodiadau, gan y gallwch adolygu'r sleidiau PowerPoint ar-lein trwy Blackboard unrhyw bryd.

## Seminarau

Mae seminarau yn drafodaethau grŵp lle mae'ch tiwtor neu'ch darlithydd yn cynllunio'r thema. Mae'r rhain yn gyfleoedd dysgu rhagorol. Fel arfer, gwaith y darlithydd yw rhannu amcanion y drafodaeth, trefnu pethau ymarferol fel lleoedd i eistedd a chyflwyniadau, llywio'r drafodaeth a dod â'r seminar i ben.

## Gweithdai neu Diwtorialau

Mae'r rhain yn llawer llai na darlithoedd ac yn cynnwys grwpiau bach o fyfyrwyr, dan arweiniad tiwtor academaidd. Yn y dosbarthiadau hyn byddwch yn datblygu gwell dealltwriaeth o bynciau ac yn integreiddio syniadau o'ch gwaith darllen a'ch darlithoedd. Y prif wahaniaeth rhwng darlithoedd a thiwtorialau neu weithdai yw lefel y cyfranogiad a ddisgwylir gennych chi. Ar gyfer tiwtorialau bydd disgwyl i chi fod wedi darllen am y pwnc ymlaen llaw a chymryd rhan yn y trafodaethau, gan gyfnewid syniadau a barn gyda myfyrwyr eraill a'r tiwtor.

## Mynediad at Blackboard

Gallwch lawrlwytho'r ap blackboard ymlaen llaw a mewngofnodi gyda'ch e-bost myfyriwr. Yn ogystal â hyn, gallwch gael mynediad iddo ar-lein trwy chwilio ar-lein a mewngofnodi ar dudalen we Blackboard.

# Themâu Dod i Adnabod eich Prifysgol

## 1 Ymgartrefu Aber Aber Belong

**Dyma eich Lle i Fyw Bywyd Aber!**
Gydag Ymgartrefu Aber cewch gyfle i wneud ffrindiau, i deimlo'n gartrefol ac i ymgyfarwyddo â'r campws.

### Cynllunydd Ymgartrefu

Defnyddiwch eich Cynllunydd Ymgartrefu personol i'ch helpu i lywio'r digwyddiadau sy'n benodol i chi yn ystod yr Wythnos Groesawu, a'r wythnosau cyntaf yn y Brifysgol.

Dysgwch am yr holl weithgareddau adrannol sydd wedi eu trefnu ar eich cyfer, yn ogystal â'r cyfleoedd allgyrsiol yn Aber. I wneud y gorau o'ch profiadau cyntaf yn y Brifysgol, cwrdd â phobl newydd neu gael hwyl defnyddiwch y Cynllunydd Ymgartrefu i weld pa ddigwyddiadau sy'n digwydd.

**Cymerwch olwg:**
www.aber.ac.uk/cy/welcome/your-induction-planner/



## 2 Astudio Aber Aber Study

**Dyma'ch Lle i Ddysgu a Datblygu!** Gyda Astudio Aber, cei ddatblygu arferion da wrth astudio, ac i ymgyfarwyddo â gwasanaethau'r llyfrgell a chyfleoedd dysgu gydol oes.

### Ein Llyfrgelloedd a Mannau Astudio

Llyfrgell Hugh Owen yw prif Lyfrgell y Brifysgol a chanolfan weinyddol y Gwasanaethau Gwybodaeth. Wedi'i leoli ar gampws Penglais, mae'n darparu lle i astudio, p'un a ydych yn dymuno astudio'n dawel ar eich pen eich hun neu gydag eraill. Darperir amrywiaeth o gyfleusterau i'ch helpu gyda'ch astudiaethau ac ar gyfer ymlacio yn dawel.

Mae Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol hefyd wedi'i lleoli ar brif gampws Penglais ac mae'n gartref i'r casgliadau Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â digon o leoedd astudio.

Gallwch ddod i mewn i'n llyfrgelloedd a'n mannau astudio gyda'ch Cerdyn Aber. Mae amrywiaeth o fannau astudio tawel, unigol a grŵp ar gael yn Ystafell Iris de Freitas ac ar Lefel D a Lefel E ac F yn llyfrgell Hugh Owen.

### Deunyddiau Astudio

Chwiliwch a dod o hyd i adnoddau electronig, llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd a llawer mwy gan ddefnyddio Primo, sef catalog ein llyfrgell. Gallwch chwilio am bopeth sydd gan y llyfrgell i'w gynnig o un blwch chwilio. Ychwanegwch eitemau at eich ffefrynnau, defnyddiwch Primo oddi ar y campws, gofynnwch am eitemau, defnyddiwch eich rhestr ddarllen i ddod o hyd i lyfrau a llawer mwy.

### Cymorth a Chefnogaeth Astudio

Gall Llyfrgellwyr Pwnc roi hyfforddiant i fyfyrwyr a staff ynglŷn â sgiliau gwybodaeth yn ogystal â chymorth pwnc trwyadl, ac maent yn cysylltu ag adrannau academaidd ynglŷn â'u hanghenion llyfrgell a gwybodaeth a'u defnydd o Restrau Darllen Aspire. Gallwch anfon e-bost, ffonio neu drefnu apwyntiad gyda'ch Llyfrgellydd Pwnc i gael cymorth a chyngor ar ddefnyddio'r llyfrgelloedd, dod o hyd i ddeunyddiau ar gyfer aseiniadau, cyfeirnodi a mwy!

### Cyfle a all roi hwb i'ch gradd a'ch cynorthwyo i sefyll ben ac ysgwydd uwchben y dorf!

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyrsiau Dysgu Gydol Oes yn ychwanegol at eich gradd a gellir eu dilyn heb ymyrryd â'ch amserlen. Gallwch astudio un modiwl y tymor a dysgu rhywbeth newydd sydd o ddiddordeb personol neu gallwch astudio cwrs a fydd yn cefnogi ac yn ategu eich gradd.

Beth sy'n wych yw bod hyn yn rhan o'ch ffioedd felly'n rhad ac am ddim i chi! Mae'r pynciau yn amrywio o Ieithoedd fel y gallwch deithio tramor, i Ecoleg i ymestyn eich gwybodaeth am rywogaethau gwahanol, Celf a Dylunio mewn meysydd arbenigol; i Farchnata a mwy.

**Cyrsiau:**
www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning/

# 3 Cefnogaeth a Lles Aber
# Aber Support and Wellbeing

**Dyma'ch lle i Ffynnu a Chael Cefnogaeth!**
Bwriad Cymorth a Lles Aber yw eich galluogi i ffynnu a theimlo eich bod yn cael cefnogaeth y gwasanaethau sydd gennym ar eich cyfer. Mae cymorth ar gael pan fydd ei angen arnoch.

## Gwasanaethau i Fyfyrwyr

Mae'r Gwasanaethau i Fyfyrwyr yma i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser ym Mhrifysgol Aberystwyth a gwneud y mwyaf o'ch cyfleoedd ar ôl graddio. Gan weithio ar y cyd ar draws y Brifysgol a chyda gwasanaethau allanol, rydym yn cynnig amrywiaeth o gymorth ac adnoddau i bob myfyriwr, ni waeth pa heriau y gallech eu hwynebu.

Mae ein timau cyfeillgar ar gael drwy gydol y flwyddyn, o ddydd Llun i ddydd Gwener, i roi cymorth a chyngor ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys gofynion hygyrchedd, anghenion lles, cyngor ariannol, cymorth fisa ac arweiniad o ran gyrfa.

**Dysgwch fwy yma:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/

## Y Gwasanaeth Hygyrchedd

Nod y Gwasanaethau i Fyfyrwyr yw rhoi profiad o'r ansawdd uchaf i'n holl fyfyrwyr a sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cyflawni ein gofynion mynediad yn gallu manteisio ar ein cyfleusterau academaidd. I bob myfyriwr anabl, y rhai sydd â chyflyrau iechyd corfforol/meddwl hirsefydlog neu sydd â gwahaniaeth dysgu penodol, anelwn at gynnig cwricwlwm cynhwysol sy'n agored i bawb, llety wedi'i addasu, a mynediad i ardaloedd dysgu lle ceir cyfrifiaduron, caledwedd arbennig, a mynediad i feddalwedd a gliniaduron ychwanegol. Gallwn roi cyngor i chi ar drefniadau arholi unigol a thechnoleg galluogi fel y gallwch gyflawni eich potensial i'r eithaf a chael y canlyniadau da yr ydych yn eu haeddu.

## Y Gwasanaeth Cyngor ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor ac Arian yn rhoi gwybodaeth a chymorth ar bynciau megis rheoli arian, materion cyllid myfyrwyr a chaledi. Gallwn roi gwybodaeth i chi am reolau a rheoliadau'r Brifysgol, gan gynnwys rheoliadau academaidd neu reoliadau o ran aflonyddu. Gallwn eich cynghori ar dynnu'n ôl neu newid cwrs a'ch cynghori ynghylch beth i'w wneud os bydd amgylchiadau annisgwyl yn effeithio ar eich astudiaethau. Os nad ydych yn sicr i ble i droi er mwyn cael cyngor neu gymorth cofiwch gysylltu â ni.

## Y Gwasanaeth Lles

Mae Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr yn deall pwysigrwydd cynnal iechyd a lles er mwyn i fyfyrwyr ffynnu yn ystod eu cyfnod yma ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar ôl hynny. Rydym yma i gynorthwyo unrhyw fyfyriwr gydag unrhyw fater lles, boed yn fater sy'n ymwneud â chyfeillgarwch, profedigaeth, gorbryder, neu faich gwaith, a phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol neu ddifrifol a pharhaus.




## Aflonyddwch a Chamymddwyn – Gwasanaeth Atal a Chefnogi

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd campws diogel a chefnogol i bob aelod o'n cymuned. P'un a ydych wedi profi aflonyddu rhywiol neu drais rhywiol eich hun, neu os ydych yn rhoi cefnogaeth i rywun sydd wedi, rydym yn cynnig opsiynau cymorth, opsiynau hysbysu, a ble i fynd am gyngor pellach.

**Adrodd a Chymorth:**
www.adroddachymorth.aber.ac.uk/

Cofiwch hefyd fod y Tîm Bywyd Preswyl yma i'ch helpu i gael y profiad myfyriwr gorau posib ac i'ch ysbrydoli i fanteisio ar eich amser yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Ymunwch â chymdeithasau, clybiau a phrosiectau gwirfoddoli

Mae gennym gyfleusterau newydd gan gynnwys y Gromen Chwaraeon, sy'n cynnwys offer cardio o'r radd flaenaf, offer cryfhau a chyflyru yn ogystal â phwll nofio, sawna, a wal ddringo. Mae'r gwahanol ddosbarthiadau ffitrwydd yn amrywio o wersi Sbinio, Ffitrwydd ac Aerobig yn ogystal â Pilates a Ioga i enwi rhai yn unig.

Yn ogystal â'r Ganolfan Chwaraeon mae yna lwyth o glybiau chwaraeon y gallwch chi ymuno â nhw. Os nad ydych chi'n rhy hoff o chwaraeon yna peidiwch â phoeni – mae nifer o gymdeithasau, clybiau a hyd yn oed prosiectau gwirfoddoli y gallwch chi ymuno â nhw. Dysgwch fwy am yr hyn sydd gan Undeb Aber i'w gynnig yma:

**Dysgwch fwy yma:**
www.umaber.co.uk/timaber/cymdeithasau/

## 4 Ieithoedd a Gyrfaoedd Aber
## Aber Languages and Careers

**Dyma'ch Lle am Brofiadau o'r Byd Go Iawn!**
Mae Ieithoedd a Gyrfaoedd Aber yn ymwneud a'ch proses chi o dyfu y tu hwnt i ffiniau. Tra byddwch yma yn Aber, cewch wybodaeth am ieithoedd y gallwch eu dysgu, am gyfleoedd ymarferol i wella eich cyflogadwyedd a chyfleoedd yn y byd go iawn.

### Dysgwch iaith arall os oes gennych ddiddordeb a'r amser i wneud hynny

Efallai nad ydych chi'n ymwybodol bod y brifysgol yn cynnig help i chi ddysgu iaith newydd os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud hynny, ac mae hyn i gyd ar gael yn rhad ac am ddim! Gallwch ddysgu Ieithoedd Ewropeaidd neu Arabeg, Tsieinëeg, Japaneaidd a Rwseg.

Mae Dysgu Gydol Oes hefyd yn rhedeg y Llwyfan Cyfnewid Iaith lle rydych chi'n gweithio ochr yn ochr â phartner dysgu i ddysgu iaith eich partner, tra maen nhw'n dysgu iaith arall gennych chi.

**Cymerwch olwg:**
www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning/modern-languages/

### Gwasanaeth Gyrfaoedd

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn darparu gwasanaeth rhagorol a chefnogol sy'n rhoi myfyrwyr a graddedigion mewn sefyllfa i wireddu eu gobeithion, gwneud dewisiadau bywyd yn wybodus, a chyflawni eu potensial. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yma i'ch helpu i ddeall sut y gallwch wneud eich gradd prifysgol, a'r holl brofiadau sydd ar gael i chi tra byddwch yn y Brifysgol, gyfrif tuag at eich gyrfa yn y dyfodol.

**Mwy o wybodaeth:**
www.aber.ac.uk/cy/studentservices/careers/

### Yr Iaith Gymraeg

Oeddech chi'n gwybod mai'r Gymraeg yw un o'r ieithoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, yn ôl Duolingo? Mae Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog lle defnyddir y Gymraeg yn rheolaidd wrth ddysgu ac yn ei gweinyddiaeth. Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ystod eich amser yn Aberystwyth, efallai yr hoffech ddysgu rhywfaint o Gymraeg. Mae digon o gyfleoedd i wneud hynny yma yn y Brifysgol. Os ydych o dan 25 oed, gallwch gofrestru ar gwrs Cymraeg am ddim.





## 5 Amgylchedd a Chynaliadwyedd Aber
## Aber Environment and Sustainability

**Dyma'ch Lle i Wneud Gwahaniaeth!** Mae Amgylchedd a Chynaliadwyedd Aber yn gyfle i ddod â'r gwaith cynaliadwyedd amrywiol a helaeth rydym yn ymwneud ag ef at ei gilydd. Gallwch gymryd rhan a dathlu ein prosiectau a'n mentrau cynaliadwyedd o feysydd megis bioamrywiaeth i drafnidiaeth.

### Ar y Llwybr Tuag at Sero Net

Yn Aberystwyth, rydym yn arwain y sector gyda'n huchelgais i ddod yn gampws carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r Brifysgol nawr ymhlith y 30 prifysgol gorau yn y DU mewn tablau cynghrair newydd ynghylch cynaliadwyedd lleoliadau addysg uwch, a'r brifysgol orau ar y cyd ar gyfer ynni glan! Ers 2020, rydym wedi buddsoddi dros £6M mewn mesurau effeithlonrwydd ynni megis goleuadau LED a £3.3M mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.

**Cymerwch rhan:**
www.aber.ac.uk/cy/about-us/sustainability/environment-sustainability/



# 6 Sgiliau Aber
# Aber Skills

**Dyma'ch Lle i Fod yn Fedrus!** Bwriad Sgiliau Aber yw eich helpu i ehangu, trin a thrafod a gwella eich sgiliau digidol fel myfyriwr yma yn Aber! Dysgwch gyda ni am yr adnodd darganfod digidol i sut y gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial er eich lles eich hun.

## Porth SgiliauAber

Platfform dwyieithog canolog yw SgiliauAber sy'n darparu ystod gynhwysfawr o arweiniad, cyngor, adnoddau a chefnogaeth sgiliau i gyd mewn un lle.  Mae'r platfform yn gweithredu o un man lle gallwch gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau amrywiol i wella eich sgiliau academaidd, sgiliau astudio a sgiliau proffesiynol.  P'un a ydych chi'n chwilio am gymorth i ysgrifennu aseiniadau, mireinio galluoedd mathemategol ac ystadegol, neu gymryd rhan mewn gweithdai sy'n canolbwyntio ar arferion academaidd da a datblygu sgiliau, mae SgiliauAber yn cynnig lle hawdd ei ddefnyddio i chi fel myfyriwr Aber i ddatblygu a gwella agweddau amrywiol ar eich set o sgiliau.

**Dysgwch fwy yma:**
www.aber.ac.uk/cy/aberskills/



# 7 Cymuned a Diwylliant Aber
# Aber Community and Culture

**Dyma'ch Lle i Archwilio!** Mae Cymuned a Diwylliant Aber yn ymwneud â dod i adnabod ein cymuned a'ch cartref newydd. Rydym am ddangos i chi nad ydych chi byth yn bell i ffwrdd o brofiad diwylliannol cyfoethog yma yn Aber a'r cyffiniau. Yn ogystal a chynnig amgylchedd dysgu gwych rydym hefyd yn cynnig cymuned campws amrywiol a deniadol.

## Archwilio ein campws a'r ardal gyfagos

Rydyn ni bob amser yn argymell bod myfyrwyr newydd yn neilltuo peth amser i ddod i adnabod ein campws hyfryd a thu hwnt. Cewch weld pa gyfleusterau sydd gennym y gallwch fanteisio arnynt - o'n hardaloedd astudio gwych, caffis a mannau gwyrdd i'n cromen chwaraeon newydd a chymaint mwy. Mae Aberystwyth yn dref fach, felly fe welwch y byddwch chi'n gallu cerdded neu feicio i'r rhan fwyaf o leoedd. Mae Campws y Brifysgol a'r Neuaddau Preswyl dafliad carreg o'i gilydd. Mae bysiau rheolaidd rhwng Aberystwyth a'r campws.

Gellir dod o hyd i wefannau cwmnïau Trafnidiaeth lleol yma:

**National Express:**
https://timetables.nationalexpress.com/routes/NX/409/London-Aberystwyth_University/O

**Trafnidiaeth Cymru:**
www./trc.cymru/

**Traws Cymru:**
www.traws.cymru/cy

## Gofod Ffydd

Yn y Gofod Ffydd gall aelodau cymuned ein Prifysgol weddïo, cwrdd ac ymlacio.  Mae wedi'i leoli yng Nghanolfan y Celfyddydau, i'r dde o Gaffi Piazza.  Gall myfyrwyr a staff ddod i mewn o ochr yr adeilad, o'r piazza y tu allan i Ganolfan y Celfyddydau/Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r gofod ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Rhwng 8yb-5yp gall unrhyw aelod o'n cymuned ddod i mewn i'r gofod trwy roi eu Cerdyn Aber

**Dysgwch fwy:**
www.aber.ac.uk/cy/equality/cyfleusterau-cynhwysol/faith-provision/

# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Y Dref

**O gampws Penglais dyw hi'n ddim o dro i lawr y rhiw i dref lan môr hanesyddol Aberystwyth, sy'n aml yn cael ei galw'n brifddinas ddiwylliannol Cymru.**

## Y Dref

Cewch ddewis o'r tri thraeth hardd yma: Traeth y Gogledd (sydd wedi ennill y faner las), Traeth y De, a Thraeth Tan-y-bwlch, i chi gael tynnu'ch esgidiau, teimlo'r tywod dan draed, ac os ydych chi'n lwcus, efallai y gwelwch y dolffiniaid. Ac yn yr haf, gallwch fwynhau gwylio'r machlud bendigedig o flaen tân bach neu farbeciw.

Mae'r adeiladau, sy'n glytwaith o bensaernïaeth Fictoraidd llawn lliw a chymeriad, yn cydweddu â'r dirwedd, yn edrych dros ehangder y prom 2km ei hyd.

Yma mae myfyrwyr, pobl leol ac ymwelwyr yn cymysgu â gilydd yn cerdded, loncian neu feicio heibio.

Mae digon i'w wneud o gwmpas y dre a'r tu hwnt. O fynd am dro o gwmpas y siopau bychain niferus a siopau'r stryd fawr, y caffis a'r bwytai - i archwilio'r atyniadau lleol, sef y Llyfrgell Genedlaethol, Rheilffordd y Graig, y Prom a'r Bandstand, yr Hen Goleg, Adfeilion y Castell, yr Harbwr a mwy.

Aberystwyth oedd y dref gyntaf yng Nghymru i ennill y Faner Borffor uchel ei bri am gynnig bywyd nos croesawgar a diogel. Mae'r bywyd nos bywiog hefyd yn darparu adloniant gwych gyda Chanolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr, y Pier, a dewis eang o fariau a thafarndai (52 i gyd!), clybiau nos a mwy - i gyd yn agos at ei gilydd. Gallwch fwynhau noson o gerddoriaeth fyw, sioe comedïwr, noson allan gyda ffrindiau, a mwy.

Mae llawer o chwaraeon a chymdeithasau eraill yma i'r myfyrwyr eu mwynhau. Gyda mwy na 50 o glybiau chwaraeon cystadleuol ac amrywiaeth eang o fwy na 100 o gymdeithasau, ynghyd â lleoliad unigryw Aberystwyth, dyma'r cefndir delfrydol i rannu diddordebau, tyfu mewn cymuned a gwneud ffrindiau am oes.



# Ymgartrefu yn Aberystwyth – Siopa ac Archfarchnadoedd

## Siopa

Mae Aberystwyth yn ganolbwynt siopa ar gyfer ardal eang o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, felly mae nifer o'r prif siopau cadwyn yng nghanol y dref neu gerllaw. Fodd bynnag, y peth gorau am siopa yn Aberystwyth yw'r amrywiaeth eang o siopau annibynnol.

Mae siopau fel arfer ar agor 09.00-17.30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, er bod rhai archfarchnadoedd ar agor rhwng 07.00-22.00 ac mae un neu ddau le ar agor 24 awr. Mae llawer o siopau hefyd ar agor ar ddydd Sul am gyfnod byrrach.

## Siopa Bwyd

Gallwch brynu cynnyrch traddodiadol a lleol, gan gynnwys cynnyrch organig a fegan ym Marchnad Ffermwyr Aberystwyth ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sadwrn pob mis. Mae hefyd siopau cigydd a siopau bara annibynnol a gwerthwr pysgod yn y dref.




## Archfarchnadoedd

Mae amrywiaeth o archfarchnadoedd ar gael yn y dref. Mae archfarchnadoedd Lidl, Iceland a Tesco wedi'u lleoli ger yr orsaf drenau. Mae archfarchnad gymharol fach o'r enw CK's ar ben rhiw Penglais, ger neuaddau preswyl y Brifysgol.

Dyma ganllaw cyflym i'r hyn y mae rhai o'r archfarchnadoedd yn Aberystwyth yn ei gynnig:

| Siop | Prisio | Kosher | Halal | Llysieuwr |
|---|---|---|---|---|
| B&M | £ | | | |
| Home Bargains | £ | | | ✓ |
| Lidl | £ | | ✓ | ✓ |
| Tesco | ££ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Morrisons | ££ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Iceland | ££ | | ✓ | ✓ |
| Spar | £££ | | | ✓ |
| M&S | £££ | | ✓ | ✓ |


# Ymgartrefu yn Aberystwyth - Dyma dy Le...

**I gael cipolwg ar yr hyn sydd gan Aberystwyth a'r gymuned i'w gynnig, rydym wedi tynnu sylw at rai o'r lleoedd allweddol i chi eu harchwilio a mwynhau byd natur a gweld bywyd gwyllt...**

## **Dyma dy Le** i archwilio




**Llwybr arfordir Ceredigion**
///staples.suggested.vine



**Castell Aberystwyth a'r Hen Goleg**
///newlywed.admiral.florists



**Twyni Ynyslas**
///tentacles.wades.violinist



**Cofeb Wellington, Pendinas**
///warthog.cards.origins




**Rhaeadrau Pontarfynach**
///hardens.draining.noun

## **Dyma dy Le** i weld natur a bywyd gwyllt



**Murmur drudwen dros y Pier Brenhinol**
///reference.stems.firework



**Bwydo'r Barcutiaid ym Mwlch Nant yr Arian**
///follow.playfully.clasping



**Dolffiniaid ym Mae Ceredigion**
///staples.modem.below

## **Dyma dy Le** i gymryd rhan mewn traddodiadau lleol



**Cerdded neu chymryd Rheilffordd y Clogwyni i fyny Rhiw Craig-glais**
///chapels.person.overtones



**Gwylio machlud Traeth y Gogledd**
///removers.dwarf.sensibly



**Cicio'r bar ar y Prom**
///sprinting.shuttered.causes



**Trên stêm i Bontarfynach**
///protected.factoring.factoring



**Coelcerth ar Draeth y De**
///arrow.something.conquest




## **Dyma dy Le** ar gyfer diwylliant, digwyddiadau a gweithgareddau



**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
///being.hats.mango



**Cyngerdd yng Nghanolfan y Celfyddydau**
///intruded.brambles.remainder




**Gŵyl Gomedi Aberystwyth**
///intruded.brambles.remainder



**Parkrun**
///tilts.older.stoops



**Cystadleuaeth rhwyfo ar hyd Bae Ceredigion**
///staples.modem.below

## Cysylltiadau Hanfodol

**Llinell Gymorth 24/7 y Brifysgol**
01970 622900

**Canolfan Chwaraeon**
chwaraeon@aber.ac.uk 01970 622280

**Cofrestrfa Academaidd**
ugfstaff@aber.ac.uk pgsstaff@aber.ac.uk
01970 622290

**Diogelwch Bob Awr o'r Dydd**
ssestaff@aber.ac.uk 01970 622900

**Gofod Ffydd**
cydraddoldeb@aber.ac.uk 01970 628424

**Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr**
cynghorydd-myfyrwyr@aber.ac.uk
01970 621761 or 01970 622087

**Gwasanaeth Gyrfaoedd**
gyfaoedd@aber.ac.uk 01970 622378

**Gwasanaethau Llyfrgell**
llyfrgell@aber.ac.uk 01970 622020

**Gwasanaethau T.G.**
tg@aber.ac.uk 01970 622400

**Llety**
llety@aber.ac.uk 01970 622984

**Undeb Aberystwyth**
union@aber.ac.uk 01970 621700